

## LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

### Cofnodion Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

a gynhaliwyd yn Aberystwyth

ddydd Gwener, 24 Chwefror, 2017

#### Presennol:

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Iwan Davies
Hugh Thomas	Susan Davies	Huw Williams
Yr Arglwydd Aberdâr	Richard Houdmont	Phil Cooper
Liz Siberry	Steve Williams	Gwilym Jones
Tomos Dafydd Davies	Dyfrig Jones (trwy linc fideo gynhadledd)	

#### Tîm Gweithredol:

Linda Tomos	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Pedr ap Llwyd	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

#### Staff:

Mererid Jones	Pennaeth Cyllid a Menter (Adran 4)
Annwen Isaac	Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

#### Hefyd yn bresennol:

Rebecca Johnson	MALD
Mary Ellis	MALD
Sian Thomas	Cyngor Partneriaeth
Ifor ap Dafydd	Cyngor Partneriaeth

#### Adran 1

##### 1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf 2017. Estynnwyd croeso arbennig i'r Ymddiriedolwyr newydd i'w cyfarfod cyntaf, sef Gwilym Dyfri Jones, Tomos Dafydd Davies a Steve Williams. Croesawyd Dyfrig Jones, oedd yn ymuno â'r cyfarfod trwy linc fideo o Brifysgol Bangor.

## **Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau i'w nodi

### **1.2 Datgan Buddiannau**

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus o dan gytundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o Brifysgol Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Dyfrig Jones fudd yn eitem 2.6 gan ei fod yn aelod o Brifysgol Bangor, ac ymneilltuodd o'r drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.

### **1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 3 a 4 Tachwedd 2016**

Cymeradwywyd cofnodion y ddau gyfarfod fel trafodaeth gywir o'r hyn a drafodwyd.

### **1.4 Log Gweithredu o gyfarfod 4 Tachwedd**

#### **Yswiriant Indemniad**

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn llythyr gan James Watkins, MALD, yn ymateb i'r cwestiynau parthed darparu yswiriant indemniad i'r Ymddiriedolwyr, ac mae hwn wedi ei rannu gyda'r Swyddogion. Bydd Carol yn gosod y llythyr ar wefan yr Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

**GWEITHRED: GOSOD YMATEB MALD PARTHED YSWIRIANT INDEMNIAID AR WEFAN YR AELODAU**

## **Adran 2**

### **2.1 Strategaeth y Llyfrgell 2017 2021**

Mae'r ymateb i'r broes ymgynghori wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae nifer o sylwadau defnyddiol wedi eu derbyn. Mae cyfle i Aelodau gyflwyno sylwadau pellach cyn 2 Mawrth, a dylid eu hanfon i'r Llywydd ar y cyfeiriad e-bost [llywydd@llgc.org.uk](mailto:llywydd@llgc.org.uk). Bydd adroddiad Wavehill ar yr ymgynghoriad yn cael ei osod ar wefan yr Aelodau

Diolchodd Linda i bawb am eu hymatebion i'r Strategaeth ddrafft, yn enwedig staff y Llyfrgell sydd wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd i fynegi barn.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn un pedair blynedd i gyd-fynd ac argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru; mae hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Llyfrgell o ran beth y gall ei gyflawni, ac mae wedi

ei lunio i gyd-fynd a gofynion y Llythyr Cylch Gorchwyl. Croesawodd yr Aelodau'r ffaith fod y Cynllun yn cyd-fynd a'r Llythyr Cylch Gorchwyl, ond rhaid i'r Llywodraeth sylweddoli fod angen adnoddau digonol ar y Llyfrgell i gyflawni'r gofynion yn y llythyr yn ogystal â'i dyletswyddau craidd.

Yn eu cyfarfod gyda'r gweinidog ar 1 Chwefror, diolchodd Rhodri a Linda i'r Gweinidog am gydnabod pwysigrwydd y Llyfrgell fel sefydliad cenedlaethol o bwys, ac am y gyllideb ychwanegol a dderbyniwyd, ond mae'r wasgfa ariannol yn parhau. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol felly fod y gofynion ar y Llyfrgell yn rhai enfawr.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi argymhell bod y Llyfrgell yn paratoi Cynllun Gweithredu tair/pedair blynedd, ond bod y Llyfrgell wedi nodi y gall hyn fod yn broblem, gan nad yw'r Llyfrgell ond yn cael cyllid ar gyfer blwyddyn ar y tro. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gosod cyllideb 3 blynedd mewn lle, ac mi fyddai hyn yn newyddion da i'r Llyfrgell. Disgwylir clywed am hyn yn yr haf. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod fod setliad blynyddol yn ei gwneud yn anodd i flaen gynllunio, ond mae pwysau Brexit a'r refferendwm wedi gwneud y sefyllfa yn un ansefydlog ac anodd.

Derbyniwyd nifer o sylwadau adeiladol gan yr Aelodau ac mae'r rhain wedi eu hymgorffori yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Strategaeth.

Mi fydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 6 Mawrth.

Nododd Linda fod angen newid y teitl, a byddai'n gwerthfawrogi unrhyw awgrym am welliannau .

**GWEITHRED: GOSOD ADRODDIAD WAVEHILL AR Y BROSES YMGYNGHORI AR WEFAN YR AELODAU**

## **2.2 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Gweithredu'r Argymhellion**

Nododd y Llywydd bod y Gweinidog wedi canmol y Llyfrgell am y camau sylweddol sydd wedi eu gweithredu o ran gwella llywodraethiant y Llyfrgell. Diolchodd i'r Ymddiriedolwyr hynny a lywiodd y Llyfrgell trwy gyfnod anodd dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n braf medru cofnodi fod y Llywodraeth yn cydnabod bod y Llyfrgell bellach ar dir sefydlog. Mi fydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro cynnydd yr argymhellion, ac mi fydd Rhodri a'r Tîm Gweithredol yn cwrdd ag Ann-Marie Harkin ym mis Mai i drafod hyn ymhellach.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gofyn i'r Llyfrgell gyflwyno tystiolaeth mewn ymateb i'r adroddiad yn yr Hydref. Mi fydd Rhodri, Linda a David Michael yn mynychu, ond nid oes dyddiad wedi ei dderbyn eto.

**GWEITHRED: HYSBYSU'R AELODAU O DDYDDIAD PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS PAN MAE'N HYSBYS**

### 2.3 Argymhellion Grŵp Llywio Cymru Hanesyddol

Bu Rhodri a Linda yn cynrychioli'r Llyfrgell yn y cyfarfodydd, ac mae'n braf cofnodi fod annibyniaeth y Llyfrgell bellach wedi ei ddiogelu. Mae adroddiad unfrydol ar ran yr holl bartneriaid wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog, sydd yn cynnig ffordd ymlaen, ond sydd hefyd yn diogelu annibyniaeth y sefydliadau. Mi fydd y Llyfrgell yn edrych i gydweithio gyda'r Comisiwn ar faterion megis gweinyddiaeth, hyrwyddo a marchnata fel man cychwyn. Cytunodd yr Aelodau i'r argymhelliad yma ar yr egwyddor bod awydd i gydweithio ar faterion o fudd cyffredinol i'r sefydliadau.

Nododd Linda y byddai'n rhaid i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gytuno gyda chylch gorchwyl unrhyw weithgor fydd yn cael ei sefydlu, felly bydd buddiannau'r Llyfrgell yn cael ystyriaeth lawn ac mi fydd yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr fod yn hapus gyda'r hyn a gytunir.

Nododd Susan y dylid ystyried cynnwys cydnabyddiaeth at statws y Llyfrgell fel elusen gofrestredig a'i sefydlu o dan Siarter Frenhinol. Nododd Linda y gall hyn gael ei ystyried fel rhan o'r Cytundeb Partneriaeth fydd yn bodoli rhwng y cyrff.

Diolchwyd i Linda a'r tîm gan yr Arglwydd Aberdâr am droi hyn yn rhywbeth positif, ac fel cyfle i'w groesawu yn hytrach na bygythiad.

Cafwyd pleidlais ffurfiol, a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y papur a gyflwynwyd, ond i nodi pwynt Susan uchod.

### 2.4 Rheoliadau a Fframwaith Llywodraethiant

Diolchodd Rhodri i Susan a Huw am yr holl waith ar ddrafftio'r dogfennau yma. Diolchodd Susan hefyd i Pedr a Carol am eu mewnbwn wrth baratoi'r fersiynau diwygiedig.

Nodwyd bod Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr bellach wedi ei ymgorffori yn y Fframwaith newydd, a bod angen cyfeirio at hyn ar dudalen deitl y Fframwaith. Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Fframwaith newydd, ac i gymeradwyo bod y Cod Ymddygiad 2007 yn cael ei ddisodli. Mi fydd y Fframwaith yn cael ei ddiwygio'n flynyddol o dan arweiniad y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad. Nodwyd hefyd bod polisiâu cyfredol y Llyfrgell hefyd wedi eu cynnwys yn y Fframwaith newydd, a gofynnwyd a oedd modd cynnwys rhestr o bolisiâu Adnoddau Dynol hefyd.

**GWEITHRED: CYNNWYS CYFEIRIAD AR DUDALEN DEITL Y FFRAMWAITH I NODI BOD COD YMDDYGIAD 2007 WEDI EI YMGORFFORI YN Y FFRAMWAITH NEWYDD**

**GWEITHRED: CYNNWYS POLISIÂU ADNODDAU DYNOL YN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL**

Cyfeiriodd Rhodri yn y man yma at werthuso'r Ymddiriedolwyr, gan fod hyn yn un o ofynion y swydd. Bydd Rhodri yn cynnal gwerthusiad ysgafn o'r Aelodau ar ôl cyfnod o ddwy flynedd, ac yna gwerthusiad llawn ar ôl diwedd tymor o bedair blynedd. Roedd yr Aelodau yn hapus si gymeradwyo'r cynllun yma.

## 2.5 Polisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat

Cyflwynwyd y Polisi yma gan y Trysorydd i'w gymeradwyo gan y Bwrdd, sydd eisoes wedi ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol. Dylid sylwi mai bwriad y cronfeydd preifat yw ychwanegu at gyllid y Llyfrgell nid ei ddisodli. Nododd Colin hefyd nad oes cronfeydd preifat yn cael eu defnyddio ar gyfer gwariant refeniw.

Nododd Susan fod angen cynnwys cyfeiriad ar ddechrau'r ddogfen at y Siarter ac amcanion y Llyfrgell o dan eu "gweithredoedd"

Cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo'r Polisi yn amodol ar gynnwys cyfeiriad fel y nodwyd gan Susan

**GWEITHRED: DIWYGIO'R POLISI I GYNNWYS CYMAL AM STATWS Y LLYFRGELL A'U GWEITHREDOEDD ELUSENNOL**

## 2.6 Casgliad Cenedlaethol Cerddoriaeth Cymru

Datganodd Dyfrig Jones fudd arbennig yn y prosiect yma gan ei fod yn aelod o Brifysgol Bangor.

Cymeradwywyd y cais yma'n unfrydol gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 17 Chwefror, ac fe'i hadnabuwyd fel defnydd addas o'r cronfeydd preifat.

Amlinellodd Pedr y prosiect fydd yn ymwneud ac amcanion craidd y Llyfrgell ac sydd yn brosiect pwysig iawn. Mae casgliad Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney yn gasgliad o arwyddocâd cenedlaethol ac mae'r teulu yn awyddus bod mynediad cyhoeddus yn cael ie roi iddo. Mae'r Llyfrgell wedi adnabod cymynrodwyr - Geoff Powell a John Legonna, a'r awgrym yw y dylai'r Ymddiriedolwyr ystyried defnyddio'r cronfeydd preifat yn enw'r ddau yma i gyllido'r prosiect. Bydd hyn yn afon neges fod y Llyfrgell yn defnyddio'i harian preifat i hyrwyddo ei amcanion craidd.

Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni gydweithio gydag Ysgol Gerddoriaeth Prifysgol Bangor yn arbennig, a rhagwelir y bydd hyn yn medru agor porth i weddill ein casgliadau cerddorol.

Roedd yr aelodau'n gefnogol i'r cais ac yn cydnabod arbenigedd Prifysgol Bangor yn y maes yma; croesawir hefyd datblygu'r elfen wirfoddol, sy'n amlwg yn un o gryfderau'r Llyfrgell. Cytunwyd y dylid ystyried hwn fel cynllun pilot, all arwain at roi mynediad i fwy o'n casgliadau nad sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Adnabuwyd bod cyfle fan hyn i gynnal lansiad a gwahodd y teuluoedd; byddai hyn yn ennyn cryn gyhoeddusrwydd oherwydd enwogrwydd Mered. Awgrymwyd y gellid lansio'r prosiect yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol gan yr Aelodau, ond ni phleidleisiodd Dyfrig oherwydd ei ddiddordeb fel aelod o Brifysgol Bangor.

## Adran 3

### 3.1 Penodi Is Lywydd a Thrysorydd

Cymeradwywyd swydd ddisgrifiad y Trysorydd gan yr Aelodau; bydd y swydd yn cael ei hysbysebu w/c 27 Chwefror, gyda dyddiad cau ar 31 Mawrth. Mi fydd Rhodri Glyn Thomas a Huw Davies

(Llywodraeth Cymru) ar y panel cyfweld, ond mae angen adnabod aelod annibynnol ac un o'r Ymddiriedolwyr i ymuno â'r panel

Mi fydd y panel sift a'r panel cyfweld ar gyfer swydd yr Is Lywydd, sydd yn benodiad gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Rhodri Glyn Thomas, Hag Harries (aelod Annibynnol) a Sioned Rees (Llywodraeth Cymru).

Awgrymodd Hugh y dylid cydnabod cyfraniad Colin fel Ymddiriedolwr, ac yn arbennig fel Trysorydd, dros yr wyth mlynedd diwethaf. Cytunodd yr Aelodau y dylid nodi hyn mewn achlysur arbennig.

**GWEITHRED: CAROL I DREFNU ACHLYSUR I GYDNABOD CYFRANIAD COLIN**

### **3.2 Rhaglen Cyfalaf**

Cyflwynodd David adroddiad oedd yn briffio'r aelodau ynglŷn â gwaith cyfalaf mawr ar yr adeilad. Nodwyd bod y £7.75m yn cynnwys arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

Roedd yr Aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad yma.

### **3.3 Cais HLF**

Datganodd Gwilym Dyfri Jones fudd yn y fan yma fod y Brifysgol yn rhan o'r prosiect cyn iddo gael ei benodi yn Ymddiriedolwr.

Mae'r Llyfrgell yn disgwyl clywed canlyniad y cais ar 23 Mawrth, ond nodwyd fod y Loteri yng Nghymru yn gweld hwn fel blaenoriaeth yn y rownd nesaf. Serch hynny, mae'n bosib y bydd yn rhaid cyflwyno eto am y trydydd gwaith.

Diolchwyd i Mererid am ei holl waith yn paratoi'r cais yma

### **3.4 Canolfan Penfro**

Cafwyd diweddariad gan Pedr ar y safle yn Hwlfordd. Mae Cyngor Sir Benfro yn adeiladau llyfrgell, oriel a chanolfan gwybodaeth newydd. Mi fydd y Llyfrgell yn gyfrifol am yr oriel gelf, ac mae cynlluniau ar gyfer arddangosfeydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn cael eu darparu. Bydd yr arddangosfeydd yn cael eu newid ddwywaith y flwyddyn. Nodwyd y bydd y Ganolfan Dwristiaeth yn cael ei lleoli yn yr un adeilad, fydd yn cynyddu'r nifer fydd yn ymweld â'r adeilad.

Cyflwynwyd cais i Gronfa Foyle am £50k i ddodrefnu'r ardal ac mae wedi bod yn llwyddiannus.

Gofynnwyd a oes bwriad ymestyn partneriaethau o'r fath gyda chynghorau eraill, ond mae hyn yn fater i'r Bwrdd ystyried os yw'r adnoddau ar gael. Cytunwyd y dylid edrych ar hwn fel cynllun peilot a phwyso a mesur sut mae'n gweithio i weld beth yw'r posibiladau ar gyfer y dyfodol ar sail hynny.

### **3.5 Dangosyddion Cyflawni**

Cafodd y rhain eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ar 27 Ionawr. Paratowyd nodiadau eglurhaol ar gais yr Ymddiriedolwyr ac roedd y Pwyllgor uchod yn hapus gyda'r sylwadau a wnaed.

### **3.6 Tor Diogeled Data**

Cyflwynodd Linda adroddiad ar dor diogeled data a ddigwyddodd ym Mai 2016, gan ymddiheuro nad oedd hwn wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd yn gynt. Roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r adroddiad, a bod y camau priodol wedi eu dilyn yn sgil y tor diogeled i adfer y sefyllfa.

### **3.7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Cyflwynwyd y papur yma hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr, ac roedd Aelodau'r pwyllgor yn hapus gyda'r adroddiad.

Mae David wedi bod yn mynychu cyfarfodydd gyda chyrff eraill sy'n trafod sut y gellid cwrdd â gofynion y Ddeddf, ac mae'r Llyfrgell yn ceisio mynd ati i ddangos ble gall gwrdd â'r gofynion. Ym mis Ebrill, mi fydd Dr Einir Young o Brifysgol Bangor yn edrych ar gynlluniau'r Llyfrgell ac yn cynnal gweithdai gyda staff yn y Llyfrgell.

## **Adran 4**

### **4.1 Cyllideb 2017 – 18**

Cyflwynodd Mererid y gyllideb am 2017 - 18, gan dynnu sylw'r Aelodau at y pwyntiau hynny oedd angen eglurhad pellach. Nododd Colin fod y gyllideb wedi cael ei thrafod gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 17 Chwefror, a bod y gyllideb yma yn llawer gwell nac y rhagwelwyd 12 mis yn ôl.

Datganodd Rhodri ei ddiolch i'r Tîm Gweithredol am fedri wireddu'r holl brosiectau newydd o dan bwysau prinder adnoddau cynyddol, gan fod y Llyfrgell wedi colli tua 60 o staff, ac mae'r Tîm Gweithredol wedi gostwng o 6 i 3. Wrth edrych ar y cyd-destun, mae'r Llyfrgell mewn sefyllfa ddiogel erbyn hyn.

Diolchwyd i Mererid, David a Colin am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb; roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r gyllideb ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

### **4.2 Adroddiad Cyllidebol hyd ddiwedd Ragfyr 2016**

Nodwyd bod targedau incwm, masnachol ac incwm prosiect am y cyfnod wedi eu cyrraedd, ac mae gwariant wedi aros o fewn y gyllideb. Mae'r canlyniadau yn well na'r disgwyl am y cyfnod yma o'r flwyddyn.

Roedd yr Aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

## **Adran 5**

### **5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 27.01.17**

Nodwyd bod angen adolygu'r Ddogfen Fframwaith gyda MALD ac mae hyn wedi cael ei adnabod fel un o dasgau'r Pwyllgor yma.

Mae angen i'r Bwrdd hefyd nodi nifer o faterion yn ymwneud â phenodiadau a rhai ar y cyd. Anogwyd yr Aelodau i ddarllen adran 5 o'r cofnodion fel bod y mater yn medru cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

## **5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 25.11.16 a chofnodion 17.02.16**

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith fod trafodaethau i newid telerau diswyddo a'r diffyg yn y Cynllun Pensiwn yn mynd yn eu blaen. Mae presenoldeb yng Nghaerdydd yn mynd i gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor a'i gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda. Nodwyd fod y pwyllgor yn falch o fedru ystyried cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r cronfeydd preifat. Trafodwyd hefyd cynllun Y Bywgraffiadur, ond bydd hwn yn cael ei drafod yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Diolchodd Colin i Aelodau'r pwyllgor am fod mor barod i graffu ac i herio.

### **Adran 6**

#### **6.1 Busnes y Llyfrgellydd**

##### **Bywgraffiadur Cymreig**

Cyflwynwyd papur gan Linda ar ddatblygu'r Bywgraffiadur Cymreig ar gyfer defnyddwyr cyfoed a rhai'r dyfodol, ac fel y nodwyd gan Colin, trafodwyd y cais gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 17 Chwefror, a chymeradwyo defnyddio £60k o gymynrodd Maxwell Fraser i uwchraddio'r sistem dechnegol.

Cytunodd yr Aelodau yn unfrydol i gefnogi'r cais yma i ddefnyddio'r arian o gronfa Maxwell Fraser.

##### **Adroddiad Uchafbwyntiau Hydref - Rhagfyr 2016**

Mae'r adroddiad yma wedi ei osod ar wefan yr Ymddiriedolwyr.

#### **6.2 Busnes y Llywydd**

Diolchodd Rhodri i'r Aelodau am eu cyfraniadau a'u sylwadau defnyddiol yn ystod y cyfarfod.

Diolchwyd i'r cyfieithydd am ei waith rhagorol.

Dymunwyd yn dda i Sian Thomas yn ei chyfarfod olaf am y tro cyn iddi gychwyn ar gyfnod mamolaeth.